# Cymeriadau Difyr



| Llyfr: | **Dilys Deg (10)** |
|---|---|
| Adnoddau: | • Bara (digon ar gyfer 10 brechdan).<br>• Jam, mêl, a menyn/margarîn.<br>• Cyllyll menyn plastig.<br>• Platiau neu napcynnau.<br>• Cardiau rhif (1-10) neu docynnau bach i gynrychioli'r brechdanau. |
| Camau: | Nod: Archwilio bondiau rhif hyd at 10 mewn ffordd ymarferol a deniadol.<br><br>Cam 1 - Paratowch frechdanau ar gyfer picnic pen-blwydd gyda 10 o westeion, gan ganolbwyntio ar wneud grwpiau sy'n adio i 10.<br><br>Cam 2 - Dechreuwch drwy drafod y rhif 10 a chyflwynwch fondiau rhif (e.e. 6 + 4, 7 + 3). Defnyddiwch gardiau rhif neu gownteri i ddangos gwahanol ffyrdd o wneud 10.<br><br>Cam 3 - Eglurwch fod y gwesteion eisiau amrywiaeth o frechdanau jam a mêl, a rhaid i'r cyfanswm fod yn 10 bob amser. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach i wneud y brechdanau. Er enghraifft, 'Os ydyn ni'n gwneud 3 brechdan jam, faint o frechdanau mêl sydd eu hangen i ni wneud 10?' Anogwch y dysgwyr i archwilio gwahanol gyfuniadau (e.e. 5 jam + 5 mêl, 8 jam + 2 fêl).<br><br>Cam 4 - Gosodwch heriau gwahanol, e.e. 'Os ydyn ni eisoes wedi gwneud 7 brechdan, faint yn fwy sydd eu hangen i ni gyrraedd 10?' / 'Os mai dim ond brechdanau mêl mae 4 gwestai eisiau eu bwyta, faint o frechdanau jam sydd eu hangen arnon ni ar gyfer y lleill?' Defnyddiwch y brechdanau ffisegol i'w gwneud yn haws i ddysgwyr gweledol ddatrys y problemau hyn.<br><br>Cam 5 - Gosodwch blatiau ar gyfer 10 o westeion a gofynnwch i'r dysgwyr ddosbarthu'r brechdanau yn seiliedig ar fond rhif penodol (e.e. 'Mae un gwestai eisiau 4 brechdan jam ac mae un gwestai eisiau 6 brechdan fêl'). Ar ôl eu dosbarthu, gwiriwch gyda'ch gilydd a yw'r brechdanau yn adio i 10.<br><br>Cam 6 - Anogwch y dysgwyr i fyfyrio ar yr holl ffyrdd gwnaethon nhw eu darganfod i wneud 10. Atgyfnerthwch sut mae bondiau rhif i'w cael mewn tasgau bob dydd.<br><br>Cam 7 - Gorffennwch gyda stori ben-blwydd hwyliog Dilys Deg neu canwch gân ben-blwydd i gloi'r picnic. |





| | |
|---|---|
| Cwestiynu: | • Beth ydyn ni'n ei wybod am y rhif 10? Allwch chi feddwl ble rydyn ni'n gweld 10 mewn bywyd bob dydd?<br>• Pe baen ni eisiau gwneud 10 brechdan, pa wahanol ffyrdd allen ni eu rhannu rhwng jam a mêl?<br>• Faint o frechdanau rydyn ni wedi'u gwneud hyd yn hyn? Faint yn fwy sydd eu hangen i ni gyrraedd 10?<br>• Os ydyn ni eisoes wedi gwneud 3 brechdan jam, faint o frechdanau mêl bydd rhaid i ni eu gwneud i gael cyfanswm o 10?<br>• Allwch chi feddwl am ffordd arall o wneud 10 gan ddefnyddio brechdanau jam a mêl? |
| Beth nesaf? | Dylunio bagiau parti ar gyfer 10 o westeion y parti pen-blwydd. |

